



Ysgol Gymunedol Bancffosfelen



'Cyd-baratoi heddiw at ddyfodol yfory.'
'Preparing together today for tomorrow's future'

Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i Rieni
The Governing Body's Annual Report to Parents
 2024 - 2025

Y Corff Llywodraethol

The Governing Body

Math o Lywodraethwr <i>Type of Governor</i>	Enw <i>Name</i>	Tymor <i>Term</i>
Rhiant/Parent Cadeirydd/Chair	Mr A Barlow	2021 – 2025
Rhiant/Parent Is-Gadeiryddes/Vice Chair	Mrs D Davies	2022 – 2026
Pennaeth/Headteacher	Mr T J Gullick	-
Athrawes/Teacher	Mrs A Rees	2022 – 2026
Cymunedol/Community	Mr A Davies	2025 - 2029
Cymunedol/Community	Mr G Harries	2022 – 2026
Cymunedol Ych./Add. Community	Cyng./Cllr. E Evans	2022 – 2026
Awdurdod Lleol/Local Authority	Cyng./Cllr. L Bowen	2021 – 2025
Awdurdod Lleol/Local Authority	Mr A J Jones	2022 – 2026
Rhiant/Parent	Mrs E Hopkins	2021 - 2025
Clerc/Clerk	Mrs M Evans	-

Cadeirydd y Llywodraethwyr / *Chair of Governors:*

Mr Andrew Barlow

Ysgol Gymunedol Bancffosfelen, Bancffosfelen, Llanelli, SA15 5DR

Andrew.Barlow@bancffosfelen.ysgolccc.cymru

Clerc i'r Corff Llywodraethol / *Clerk to the Governing Body:*

Mrs Miriam Evans

Swyddog Cefnogi'r Ysgol / *School Support Officer*

Ysgol Gymunedol Bancffosfelen, Bancffosfelen, Llanelli, SA15 5DR

admin@bancffosfelen.ysgolccc.cymru

Staff Ysgol 2024-2025

School Staff 2024-2025

Pennaeth / Headteacher:

Mr Thomas Gullick

Gofalwr / Caretaker:

Mr Roger Selwood

Staff Addysgu / Teaching Staff:

Mrs Susan Simpson

Mrs Amanda Rees

Mrs Angharad Bryant

Glanhâwraig / Cleaner:

Mrs Siân Williams

Cogyddes / Cook:

Miss Donna Evans

Cynorthwyr / Assistants:

Mrs Anne-Marie Passmore

Mrs Siân Williams

Miss Kirsty O'Singa

Cynorthwyr Arlwy / Catering Assistants:

Mrs Sandra Giles

Miss Amy Hopkins

Swyddog Cefnogi Ysgol / School Support Officer:

Mrs Miriam Evans

Amseroedd yr Ysgol

School Times

Drysau'n agor / Doors open: 8:45am

Cofrestri / Registration: 9:00am

Gwers 1 / Lesson 1: 9:00 – 10:30am

Egwyl / Breaktime: 10:30 – 10:50am

Gwers 2 / Lesson 2: 10:50 – 12:00pm

Cinio / Lunch: 12:00 – 1:00pm

Prynhawn Meithrin i Flwyddyn 2 / Nursery to

Year 2 Afternoon: 1:00pm – 3:10pm

Prynhawn Blynyddoedd 3 i 6 / Years 3 to 6

Afternoon: 1:00pm – 3:20pm

Gair wrth Gadeirydd y Llywodraethwyr

A word from the Chair of Governors

Annwyl Rieni a Gwarcheidwaid,

Ar ddechrau'r flwyddyn academiaidd hon, buom wrth ein bodd i groesawu ein Pennaeth newydd, Mr Thomas Gullick, a ymunodd â ni ym mis Medi 2024. Dyma'r flwyddyn gyntaf i Mr Gullick arwain yr ysgol, ac mae wedi profi'n flwyddyn lwyddiannus. Mae ei brofiad, ei weledigaeth a'i arweinyddiaeth gadarn eisoes yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol, ac edrychwn ymlaen gydag hyder at y dyfodol o dan ei arweiniad. Rydym yn ddiolchgar i'r disgyblion, rhieni/gwarcheidwaid, staff a llywodraethwyr am y croeso cynnes a estynnwyd iddo. Croeso, Mr Gullick.

Fel sy'n digwydd yn aml, mae'r flwyddyn wedi dod â rhai uchafbwyntiau yn ogystal â ffarweliau. Roedd yn brofiad melyschwerw i ffarwelio â Mrs Bryant a Mrs Passmore, y ddwy yn aelodau hynod werthfawr o'r staff, sydd wedi symud ymlaen i swyddi newydd. Diolchwn iddynt yn ddiffuant am eu hymroddiad a'u cyfraniad i'r ysgol, ac estynnwn bob dymuniad o lwyddiant iddynt yn eu rolau newydd. Byddant yn cael eu colli gan gydweithwyr, disgyblion a theuluoedd.

Mae'n bleser mawr gennym gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr ar gyfer y flwyddyn academiaidd 2023/2024. Er bod heriau wedi codi, bu nifer o gyflawniadau hefyd, ac rydym yn falch o'r cynnydd a wnaed ar draws holl agweddau bywyd yr ysgol.

Mae ein disgyblion wedi cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau a theithiau eleni, gyda llawer ohonynt yn cynrychioli'r ysgol mewn digwyddiadau allgyrsiol gan gynnwys Mabolgampau Mynyddmawr, Mabolgampau Menter Cwm Gwendraeth ac Elli, Cyngherddau Cerddorol, a'r Eisteddfod. Roedd eu perfformiadau yn y gwasanaethau Diolchgarwch, Nadolig a BAFTA's Banc yn arbennig o gofiadwy, gan adlewyrchu ymroddiad a dawn y disgyblion a'r staff fel ei gilydd.

Hoffem hefyd estyn ein diolch diffuant i Gymdeithas Rhieni, Ffrindiau ac Athrawon yr ysgol am eu hymdrechion diflino wrth gefnogi'r ysgol. O drefnu disgo's a'r Ffair Nadolig boblogaidd, i gydweithio â'r ysgol ar gyfer Mabolgampau a Ffair Haf yr ysgol, mae eu gwaith caled wedi darparu profiadau cofiadwy i ddisgyblion a theuluoedd, tra hefyd yn codi arian gwerthfawr i'r ysgol.

Mae ein diolch mwyaf dwys yn mynd i'r holl staff addysgu a chefnogi am eu brwdfrydedd, eu hangerdd a'u hymroddiad wrth lunio dyfodol ein disgyblion. Gwerthfawrogir eich ymdrechion amhrisiadwy yn fawr iawn! Rydym hefyd yn hynod ddiolchgar i chi, y rhieni a'r gwarcheidwaid, am eich cefnogaeth barhaus a'ch cyfranogiad, sy'n chwarae rhan mor bwysig yn llwyddiant ein cymuned ysgol. Yn olaf, hoffwn ddiolch i'r llywodraethwyr am eu hymrwymiad diwyro a'u gwaith caled drwy gydol y flwyddyn.

Mae Ysgol Gymunedol Bancffosfelen yn parhau i ymdrechu am ragoriaeth a chydaddoldeb. Yn ganolog i'r gymuned, mae'r ysgol yn meithrin amgylchedd gofalgarg, cefnogol a chroesawgar, lle mae addysg, lles a diogelwch y disgyblion yn brif flaenoriaeth. Caiff pob plentyn ei werthfawrogi, ei feithrin a'i ysbrydoli i ddod yn ddysgwr gydol oes.

Gyda dymuniadau gorau,

Mr Andrew Barlow

Cadeirydd y Llywodraethwyr

Gair wrth Gadeirydd y Llywodraethwyr

A word from the Chair of Governors

Dear Parents and Guardians,

At the beginning of this academic year, we were delighted to welcome our new Headteacher, Mr Thomas Gullick, who joined us in September 2024. This has been Mr Gullick's first year leading the school, and it has proved to be a successful one. His experience, vision and strong leadership are already making a positive difference, and we look ahead with confidence to the future under his guidance. We are grateful to pupils, parents/guardians, staff, and governors for the warm welcome extended to him. Croeso, Mr Gullick.

As is often the case, the year has brought both highlights and goodbyes. It was bittersweet to say farewell to Mrs Bryant and Mrs Passmore, both highly valued members of staff, who have moved on to new posts. We thank them sincerely for their dedication and contribution to the school, and we wish them every success in their new roles. They will be missed by colleagues, pupils and families alike.

It gives us great pleasure to present the Annual Governors' Report for the academic year 2023/2024. Although challenges have been faced, there have also been a number of achievements, and we are proud of the progress made across all areas of school life.

Our pupils have taken part in a wide variety of activities and trips this year, with many representing the school in extracurricular events including Mabolgampau Mynyddmawr, Mabolgampau Menter Cwm Gwendraeth ac Elli, Musical Concerts and the Eisteddfod. Their performances at the Thanksgiving, Christmas and BAFTA's Banc services were particularly memorable, reflecting the commitment and talent of both pupils and staff.

We would also like to extend our heartfelt thanks to the Parents, Friends, and Teachers Association for their tireless efforts in supporting the school. From organising discos and the much-enjoyed Christmas Fair, to collaborating with the school for the annual sports day, their hard work has provided memorable experiences for pupils and families while raising valuable funds for the school.

Our deepest thanks go to all the teaching and support staff for their passion, enthusiasm, and dedication in shaping the future of our pupils. Your invaluable efforts are truly appreciated!

We are also very grateful to you, the parents and guardians, for your ongoing support and involvement, which plays such an important role in the success of our school community. Finally, my thanks go to the governors for their unwavering commitment and hard work throughout the year.

Ysgol Gymunedol Bancffosfelen continues to strive for excellence and equality. At the heart of the community, the school fosters a caring, supportive and welcoming environment, where pupils' education, wellbeing and safety are paramount. Every child is valued, nurtured and inspired to become a lifelong learner.

With very best wishes,

Mr Andrew Barlow

Chair of Governors

Cysylltiadau gyda'r Gymuned



Am flwyddyn!

Codwyd £88 ar gyfer Plant Mewn Angen. Perfformiwyd yn ystod sawl digwyddiad gan gynnwys; Blas o Gymru, Eisteddfod, Gwasanaeth Nadolig yng Nghapel Pisgah, Seindorf Crwbin, Proms y Sir.

Cafwyd sawl ymweliad pwysig i'r ysgol, gan gynnwys Mr Urdd, Faciwî 2ailRB, Miss Treharne – Walk the Bible, y Fari Lwyd.

Cynrychiolwyd yr ysgol o fewn sawl cystadleuaeth chwaraeon, gan gynnwys Mabolgampau Meithrin a Derbyn Menter CGE, Mabolgampau Mynydd Mawr, Llysgenhadon Chwaraeon, Twrnameintiau Rygbi a Phêl Droed yr Urdd.

Cynrychiolwyd yr ysgol ar ymweliad addysgol ac hamddenol, gan gynnwys ymweliad i San Steffan yn Llundain i gwrdd gyda Mrs Ann Davies AS, Llyfrgell Pontyberem, Bore Coffi Bancffosfelen, Pantomeim yn Neuadd Pontyberem, Noson Gwis a Bingo.

Bu sawl cysylltiad arall gyda'r gymuned ar draws y flwyddyn, gan gynnwys codi arian i'r apêl Pabi, ymweliadau addysgol i Blantasia, Castel Henllys, Mad Science a Llangranog.



Links with the Community



What a year!

We raised £88 for Children in a need.

Pupils performed in many events, including Taste of Wales, Eisteddfod, Christmas Concert in Pisgah Chapel, Seindorf Crwbin and the County Proms.

We had many important visitors to the school, including Mr Urdd, a WWII Evacuee, Miss Treharne – Walk the Bible, The Fari Lwyd.

Pupils represented the school within many sporting activities, including Menter CGE Nursery and Reception Sports Day, Mynydd Mawr Sports Day, Sports Embassasros, The Urdd Football and Rugby Tournaments.

Pupils represented the school in educational and leisure visits, including a visit to Westminster to meet Mrs Ann Davies MP, Pontyberem Library, Bancffosfelen Coffee Morning, Pantomime in Pontyberem Hall, Quiz and Bingo Night.

There were many other connections with the community across the year, including raising money for the poppy appeal, and educational visits to Plantasia, Castell Henllys, Mad Science, and Llangrannog.



Addysg yn / *Education at* Ysgol Gymunedol Bancffosfelen

Ysgol gyfrwng Gymraeg ydy Ysgol Gymunedol Bancffosfelen. Mae disgyblion yn cael eu hymdrochi yn yr iaith Gymraeg wrth ddechrau eu yn y Meithrin. Y prif iaith ar gyfer cyflwyno gwybodaeth a gwersi ar draws yr ysgol ydy Cymraeg. Er hyn, dysgir Saesneg yng ngwersi o Flwyddyn 3 i fyny ac mae pwyslais ar ddwyieithrwydd yn sicrhau fod disgyblion â chyrhaeddiad uchel yn y ddwy iaith erbyn diwedd Blwyddyn 6. Mae'r Pennaeth a Staff yn cwrdd gyda darpar rieni cyn i'w plant ddechrau gan esbonio manteision dwyieithrwydd. Atgyfnerthir hyn gan yr holl staff yn ystod cyfarfodydd gyda rhieni, a.y.b.

Cefnogir a chynorthwyir rhieni i gefnogi eu plant gyda'u tasgau gwaith cartref. Rhoddir gwaith cartref ymhob dosbarth. Rhennir gwaith cartref yn seiliedig ar themâu tymhorol ar draws y flwyddyn. Atgyfnerthu sgiliau ag addysgwyd yn ysgol ydy pwrpas y gwaith cartref.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn Ysgol Gymunedol Bancffosfelen yn mynychu Ysgol Gyfun Gymraeg Maes y Gwendraeth ar gyfer eu haddysg uwchradd. Cynllunnir gweithgareddau yn ystod Blynyddoedd 5 a 6 ynghyd â nosweithiau rhieni i hwyluso'r broses pontio.

Mae'r disgyblion yn dilyn cwricwlwm thematig. Trefnir a chynllunnir themâu yn ofalus ar gyfer pob ystod oedran gan sicrhau trosolwg cyfan o'r Cwricwlwm i Gymru.

Gyda chyflwyniad y Cod ADY dros y blynyddoedd diwethaf, mae blynyddoedd penodol yn trosglwyddo i'r fformat newydd ar draws amser. Bydd hyn yn hyrwyddo ymagwedd person-ganolig gan gynnwys mewnbwn oddi wrth yr holl asiantaethau addas gyda dilyniant priodol ar gyfer anghenion yr unigolyn. Ffurfir Cynllun Datblygu Unigol ar gyfer y disgyblion sydd ag angen, gydag adolygiadau a diweddariadau yn cael eu hystyried yn rheolaidd. Ffurfir grwpiau ymyrraeth yn seiliedig ar ganlyniadau profion a gyflenwir ac asesiadau athro. Dysgir disgyblion sydd ag anghenion mewn agweddau penodol mewn grwpiau. Defnyddir strategaethau megis 'ELSA', 'Numicon', grwpiau darllen a Blociau Bendigedig.

Mae cynnydd pob disgybl yn cael ei dracio yn ofalus ac yn rheolaidd gan ddilyn systemau'r ysgol. Parha'r ysgol yr ymdrech i atgyfnerthu deallusrwydd o bwysigrwydd materion amgylcheddol. Mae'r Cyngor Eco/Ysgol yn cwrdd yn rheolaidd ac yn chwilio am ffyrdd y gall arferion sydd yn garedig i'r amgylchedd gael eu hymgorffori i fywyd bob dydd yr ysgol. Rhan holl bwysig o'r ysgol yw llais y plentyn ac maent wedi bod yn casglu syniadau a gweithredu arnynt.

Tynnir sylw at hyrwyddo bwyta'n iach yn gyson gan hyrwyddo bocsys bwyd iach. Bwyteir ffrwyth sydd yn dod o adref yn ystod amser chwarae. Mae bwyta'n iach yn rhan o'r cwricwlwm Iechyd a Lles. Darparwyd brwsys a phast dannedd i'r disgyblion priodol gan Cynllun Gwên a cynhelir sesiwn brwsio dannedd dyddiol yn yr ysgol.

Addysg yn / *Education at* Ysgol Gymunedol Bancffosfelen

Ysgol Gymunedol Bancffosfelen is a Welsh medium school. Children are immersed in the Welsh language on entry into the Nursery. The main language of instruction throughout the whole school is Welsh. However, English is taught in lessons from Year 3 onwards and an emphasis on bilingualism ensures that pupils achieve high standards in both languages by the end of Year 6. The Headteacher and Staff meet with prospective parents prior to their children starting and explains the advantages of bilingualism. All teaching staff in parents' meetings etc reiterates this message.

Parents are helped and supported by teachers in helping their children with homework tasks. Every class within the school are given homework. Homework is given out on a termly basis across the year and is based on termly themes. The aim of the homework is to reinforce the skills learned in school.

Most pupils in Ysgol Gymunedol Bancffosfelen attend Ysgol Gyfun Gymraeg Maes y Gwendraeth for their secondary education. Joint activities are arranged throughout Year 5 and 6 and parents evenings held so that transition is as smooth as possible.

The pupils follow a thematic curriculum. Themes are arranged and planned carefully for each age range ensuring complete curriculum coverage.

With the ALN code having been introduced over the last few years, specific year groups are being transitioned to the new format. This will allow for a person-centred approach to be implemented with input to all relevant parties at a proportionate rate to the needs of the individual. Individual Development Plans will be created for the pupils that have a need, with reviews and amendments being considered regularly. Intervention groups are formed based on the results of tests administered and Teacher Assessments. Pupils who need extra support in specific areas are taught in groups. Intervention strategies such as 'ELSA', 'Numicon', reading groups and 'Lego Therapy' are used.

Progress, of all learners is regularly and carefully tracked. The school continues its effort in reinforcing the importance of environmental issues. School and Eco council meet regularly and look for ways in which environmentally friendly practices can become a part of the school life. Pupil's voice is important, and they have been collecting information and acting on their ideas.

The school brings attention to healthy eating regularly and encourages a healthy lunchbox. Pupils can enjoy fruit brought from home during breaktimes. Healthy eating forms a part of the Health and Wellbeing Curriculum. Pupils receive a toothbrush and paste from the Designed to Smile team and toothbrushing sessions are held once a day in school.

Darparu Cyfleusterau Toiled

Mae'r toiledau ar gyfer disgyblion o'r Meithrin i Flwyddyn 6 ar lawr waelod yr ysgol ac o fewn Bloc 1. Mae yna un tŷ bach ciwbigol ar gyfer merched Bl3-6. Mae yna un tŷ bach ciwbigol ac un wrinal hir i fechgyn Bl3-6. Mae yna 4 tŷ bach ciwbigol ar gyfer disgyblion Meithrin i Flwyddyn 2. Mae'r toiledau wedi addasu o ran uchder. Mae gan bob tŷ bach dŵr oer, dŵr poeth, papur tŷ bach, sebon a tyweli papur/sychwr i sychu dwylo. Mae'r tai bach yn cael eu glanhau gan staff glanhau a chyflogir gan yr Awdurdod Leol.

Provision of toilet facilities

The toilets for pupils from Nursery to Year 6 are on the bottom floor of the school and within Block 1. There is one cubical toilets for girls in Year 3 to 6. There is one cubical toilet and one long urinal for the boys in Year 3 to 6. There is four cubical toilets for pupils in Nursery to Year 2. The small toilets here have been adjusted in terms of height. All toilets have cold water, hot water, toilet paper, soap and paper towels/dryer to dry hands. The toilets are cleaned by cleaning staff employed by the Local Authority.

Ystadegau Presenoldeb

Presenoldeb am y flwyddyn 2024 – 2025 oedd **92.89%**. Byddwn yn cyfeirio unrhyw blentyn sydd a phresenoldeb o dan 80% i Swyddog Lles Ysgolion yr Awdurdod Leol. Gofynnwn i rieni/ warcheidwaid gysylltu gyda'r ysgol i nodi absenoldeb plentyn (trwy lythyr neu alwad ffôn) neu fyddwn yn ystyried yr absenoldeb yn anawdurdodedig.

Attendance Statistics

*Attendance for the academic year 2024 – 2025 was **92.89%**. Any child falling below 80% will be referred to the L.E.A. School Welfare Officer. In the event of an absence parents are requested to inform the school by phone or by letter otherwise your child's absence will be considered as unauthorised.*

	Presenoldeb / Attendance	Absenoldeb Awdurdodedig / Athourised Absence	Absenoldeb Anawdurdodedig / Unauthorised Absence
2024/2025	92.89%	6.36%	0.75%

Tymhorau Ysgol 2024 – 2026

School Terms 2024 – 2026

Autumn 2024	Tuesday 3rd September	Monday 28th October – Friday 1st November	Friday 20th December
Spring 2025	Monday 6th January	Monday 24th February – Friday 28th February	Friday 11th April
Summer 2025	Monday 28th April	Monday 26th May – Friday 30th May	Monday 21st July
Autumn 2025	Tuesday 2nd September	Monday 27th October to Friday 31st October	Friday 19th December
Spring 2026	Monday 5th January	Monday 16th February to Friday 20th February	Friday 27th March
Summer 2026	Monday 13th April	Monday 25th May to Friday 29th May	Monday 20th July

Dyddiau HMS Penodol

- Dydd Llun 2il Medi 2024
- Dydd Llun 1af Medi 2025

Ar gyfer diwrnodau HMS Dynodedig i'r ysgolion, cysylltwch â'r ysgol. Fel arfer, mae gan ysgolion 5 diwrnod HMS yn ystod y flwyddyn academaidd (gan gynnwys y diwrnodau dynodedig). Ym mis Ionawr 2023 fe wnaeth Gweinidog y Gymraeg ac Addysg osod Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2023. Mae'r Rheoliadau'n cynyddu nifer y diwrnodau HMS o 5 i 6 diwrnod ar gyfer y 3 blynedd academaidd nesaf (2022 i 2023, 2023 i 2024 a 2024 i 2025).

Gwener y Groglith

- 18fed Ebrill 2025
- 3ydd Ebrill 2026

Gŵyl Fai

- 5ed Mai 2025
- 4ydd Mai 2026

Nodwch y gallai manylion y calendr hwn newid o ganlyniad i benderfyniadau polisi'r Llywodraeth. Nid ydym yn derbyn cyfrifoldeb dros unrhyw golledion yn sgil gorfod newid trefniadau gwyliau oherwydd newidiadau o'r fath.

Tymhorau Ysgol 2024 – 2026

2024 – 2026 School Terms

Autumn 2024	Tuesday 3rd September	Monday 28th October – Friday 1st November	Friday 20th December
Spring 2025	Monday 6th January	Monday 24th February – Friday 28th February	Friday 11th April
Summer 2025	Monday 28th April	Monday 26th May – Friday 30th May	Monday 21st July
Autumn 2025	Tuesday 2nd September	Monday 27th October to Friday 31st October	Friday 19th December
Spring 2026	Monday 5th January	Monday 16th February to Friday 20th February	Friday 27th March
Summer 2026	Monday 13th April	Monday 25th May to Friday 29th May	Monday 20th July

Designated INSET Days

- *Monday, 2nd September 2024*
- *Monday 1st September 2025*

For school specific INSET days, please contact the school. Usually, schools have 5 INSET days during the academic year (including the designated days). In January 2023 the Minister for Education and Welsh Language laid the Education (School Day and School Year) (Wales) (Amendment) Regulations 2023. The Regulations increase the number of INSET days from 5 to 6 days for the next 3 academic years (2022 to 2023, 2023 to 2024 and 2024 to 2025).

Good Friday

- *18th April 2025*
- *3rd April 2026*

May Day

- *5th May 2025*
- *4th May 2026*

Please note that this calendar is subject to any changes that may arise because of government policy decisions. We do not accept liability for any losses incurred in respect of altered holiday arrangements following such changes.

Datganiad o Wariant

Statement of Expenditure

Sefyllfa Ariannol – Ysgol Gymunedol Bancffosfelen – Ebrill 2025

Financial Position – Ysgol Gymunedol Bancffosfelen – April 2025

Gwelir isod crynodeb sefyllfa ariannol
terfynol eich ysgol ar gyfer 2024/25.

Please see below a summary of your
school's final outturn position for 2024/25.

	£	
Gwariant Net 2024/25	293,380	Net Expenditure 2024/25
Dyraniad Ariannu yn ôl Fformwla 2024/25	-268,159	Formula Funding Allocation 2024/25
Diffyg Ariannol a Ddygwyd Ymlaen o 2023/24	9,223	Deficit Brought Forward from 2023/24
Diffyg Ariannol yn Cario Drosodd i 2025/26	34,444	Deficit Carried Forward to 2025/26

Income	£	Expenditure	£
Formula Funding Allocation	268,159	Employee Costs – Teaching	204,639
Reallocation of Grants	46,454	Employee Costs – Other Staff	87,293
Fees and Costs Recoverable	3,476	Repair and Maintenance	4,718
Donations	26	Energy Costs	13,234
SLA Income – Schools	5,646	Rent and Rates (incl. Water)	4,580
		Cleaning and Refuse Collection	2,606
		Transport Related Costs	1,922
		Capitation Costs	3,482
		Other Running Costs (Leases)	3,205
		Service Level Agreements	23,303
Total	323,761	Total	348,982

Enw'r Grant / Grant Name	Côd Swydd / Job Code	Dyraniad / Allocation £	Gwariant / Expenditure £
GAALL Safonau Ysgol / LAEG School Standards	050786	-29,107	33,776
GAALL Diwygio'r Cwricwlwm / LAEG Curriculum Reform	050793	-737	937
GAALL Diwygio ADY / LAEG ALN Refom	050354	-1,974	2,256
GAALL ADY / LAEG ALN	050763	-2,025	2,897
Dysgu Proffesiynol / Professional Learning	050590	-1,559	2,190
GDD / PDG	050337	-7,594	12,185
GDDBC/ EYPDG	050838	0	0
GDD – Ysgolion heb PYADd / PDG – Schools with no FSM	050588	0	0